



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Julie James AC/AM**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

Ein cyf/Our ref MA-P-KW/1198/19

Lynne Neagle AC (Cadeirydd)  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

29 Ebrill 2019

Annwyl Lynne,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Gweinidog Addysg a minnau yn dilyn ein hymddangosiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 3 Ebrill 2019, pan drafodwyd cyllid ysgolion. Cytunwyd y byddem yn darparu nodyn ynghylch cymhlethdod y trefniadau sydd ar gael i drosglwyddo cyllidebau, mewn perthynas â'r potensial ar gyfer cyllidebau tair blynedd i ysgolion, wrth sôn am gronfa wrth gefn Cymru. Mae'r nodyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Nodyn am gymhlethdodau'r trefniadau sydd ar gael i gario cyllidebau drosodd, mewn perthynas â'r potensial ar gyfer cyllidebau ysgol tair blynedd.**

Ein huchelgais yw rhoi cymaint o sicrwydd i bartneriaid a rhanddeiliaid â phosibl at ddibenion cynllunio cyllidebau ac mae'n fwriad gennym bennu cynlluniau gwario tymor canolig i dymor hir lle bo modd. Er hynny, rydym yn wynebu her sylweddol, a hynny am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, oherwydd cyfnod o gryn ansicrwydd. Mae goblygiadau ariannol ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn llwm i Gymru - yn fwy nag i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, gan fod Cymru ar ei hennill yn ariannol o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. 2019-20 hefyd yw cyllideb olaf setliad adolygiad presennol Llywodraeth y DU o wariant Mae'r ffactorau hyn ar y cyd yn golygu ein bod wedi llwyddo i bennu cyllideb refeniw tymor byr yn unig ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Er i'r Canghellor gyhoeddi adolygiad tair blynedd llawn o wariant i'w lansio cyn toriad yr haf yn natganiad y Gwanwyn nid ydym yn gwybod pa effaith y bydd yr oedi diweddaraf i amserlen Brexit yn ei chael ar hyn. Caiff yr adolygiad o wariant ei gwblhau ochr yn ochr â chyllideb yr Hydref, sydd wedi cael ei chyhoeddi yn y gorffennol ar ôl cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Ni wyddom felly pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae ein gallu i gyhoeddi cynlluniau tymor hwy yn gysylltiedig yn anochel â gwaith Llywodraeth y DU wrth gynhyrchu cynlluniau tymor byr.

Gofynnodd y Pwyllgor am y defnydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru i hwyluso cyllidebau tair blynedd i ysgolion. Er bod y Gronfa wrth Gefn newydd i Gymru'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru reoli ei chyllidebau ar draws blynyddoedd, ni fyddai'n darparu mecanwaith priodol i bennu setliadau aml-flwyddyn ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill.

O Ebrill 2018 newidiodd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gallu cario cyllid ymlaen fel rhan o fframwaith cyllidol newydd Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â phwerau Llywodraeth Cymru i godi trethi.

Mae cap o £350m ar Gronfa Wrth Gefn Cymru. Mae'r swm y ceir ei dynnu i lawr bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125 miliwn ar gyfer gwariant refeniw a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes terfynau blynyddol ar daliadau i mewn i'r gronfa. Cafodd y terfynau ar Gronfa Wrth Gefn Cymru eu negodi fel rhan o'r fframwaith cyllidol cyffredinol ond maent yn cynnig hyblygrwydd ychwanegol yn ychwanegol at y broses flaenorol ar gyfer Cyfnewid Cyllidebau a gafodd ei chapio'n 0.6% ar gyfer refeniw (rhyw £75m) a 1.5% ar gyfer cyfalaf (rhyw £20m).

Diben hyn yw rhoi "clustog" ar gyfer gwahaniaethau i ragolygon o incwm trethi yn ogystal â bod yn fecanwaith i gario cronfeydd ymlaen o unrhyw danwario sy'n codi a rheoli galwadau yn ystod y flwyddyn.

Nododd Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford, ymagwedd at gronfeydd wrth gefn yng nghyllideb ddrafft 2018-19 i fanteisio i'r eithaf ar gronfa newydd wrth gefn Cymru, gan gario ymlaen yr uchafswm sydd i'w ddefnyddio yn y blynyddoedd i ddod i amddiffyn rhag rhai o'r toriadau mawr i wasanaethau cyhoeddus a fyddai wedi bod yn angenrheidiol o ganlyniad i gynt.

I esbonio paham na fyddai Cronfa Wrth Gefn Cymru yn fecanwaith effeithiol i bennu setliadau aml-flwyddyn ar gyfer llywodraeth leol mae'n werth cymharu maint y swm sydd ar gael i'w dynnu i lawr. Y grant cynnal refeniw blynyddol i lywodraeth leol, heb gynnwys yr ardrethi annomestig heb eu dosbarthu yw £3.2bn. Cyfanswm y gwariant cynlluniedig o adnoddau cyllidol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yw £14bn, mae'r uchafswm a dynnir i lawr o'r gronfa wrth gefn yn 0.89% yn unig o'r cyfanswm hwn. Felly hyd yn oed pe bai'n briodol gwneud hynny, mae swm y sicrwydd y gellid ei roi i unrhyw sector sylweddol, yn enwedig yn ystod blwyddyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, yn gyfyngedig.